# ATODLENNI

## ATODLEN 2

Rheolau cynnal etholiad cynghorwyr ar gyfer prif ardal pan gynhelir y bleidlais ynghyd â phleidlais mewn etholiad perthnasol

## RHAN 4

Cyfrif y Pleidleisiau a Datgan y Canlyniad mewn Etholiadau lle Ceir Gornest

### Presenoldeb mewn trafodion o dan y Rhan hon

**53.**—(1) Mae gan y personau a ganlyn hawl i fod yn bresennol mewn trafodion o dan reolau 55(2) i (10), 57 a 59 i 64—

(a) y swyddog canlyniadau ac aelodau staff y swyddog canlyniadau;

(b) pob ymgeisydd a gwestai i bob ymgeisydd;

(c) asiantau etholiadol y brif ardal;

(d) asiantau cyfrif y brif ardal;

(e) unrhyw berson sydd â hawl i fod yn bresennol yn rhinwedd adrannau 6A i 6D o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol a sylwedyddion achrededig);

(f) y cwnstabliaid ar ddyletswydd.

(2) Yn ychwanegol, mae gan unrhyw berson sydd â hawl i fod yn bresennol wrth i'r pleidleisiau gael eu cyfrif mewn etholiad perthnasol hawl i fod yn bresennol mewn trafodion o dan reol 55(2) i (10).

(3) Caiff y swyddog canlyniadau ganiatáu i unrhyw berson arall fod yn bresennol mewn trafodion o dan unrhyw un neu ragor o reolau 55(2) i (10), 57 neu 59 i 64.

(4) Ni chaniateir rhoi caniatâd o dan baragraff (3) oni bai bod y swyddog canlyniadau—

(a) wedi ei fodloni na fydd presenoldeb y person yn rhwystro swyddogaethau'r swyddog canlyniadau rhag cael eu cyflawni'n effeithlon, a

(b) naill ai wedi ymgynghori â'r personau priodol ynghylch a ddylid rhoi caniatâd neu wedi penderfynu nad yw'n ymarferol ymgynghori â hwy.

(5) At ddibenion paragraff (3)(b), y "personau priodol" yw—

(a) yn achos trafodion o dan reol 55(2) i (10), asiantau etholiad y brif ardal ac asiantau'r etholiad arall;

(b) yn achos unrhyw drafodion eraill, asiantau etholiad y brif ardal.

(6) Rhaid i'r swyddog canlyniadau roi pob cyfleuster rhesymol i unrhyw asiantau cyfrif sydd â hawl i fod yn bresennol ar gyfer goruchwylio'r trafodion, a'r holl wybodaeth amdanynt, y gall y swyddog canlyniadau eu rhoi yn gyson â chynnal y trafodion yn drefnus a chyflawni dyletswyddau'r swyddog canlyniadau.

(7) Yn benodol, pan fo'r pleidleisiau'n cael eu cyfrif drwy ddidoli'r papurau pleidleisio yn ôl yr ymgeisydd y rhoddir y bleidlais iddo ac wedyn cyfrif nifer y papurau pleidleisio ar gyfer pob ymgeisydd, mae gan asiantau cyfrif y brif ardal hawl i'w bodloni eu hunain fod y papurau pleidleisio wedi eu didoli'n gywir.

(8) Rhaid i'r swyddog canlyniadau wneud trefniadau i sicrhau bod pawb sy'n bresennol wrth i'r pleidleisiau gael eu cyfrif (ac eithrio'r cwnstabliaid ar ddyletswydd) wedi cael hysbysiad yn nodi darpariaethau adran 66(2) a (6) o Ddeddf 1983 (hysbysiad o ofyniad cyfrinachedd).

(9) Yn y rheol hon, mae cyfeiriad at gwnstabl yn cynnwys cyfeiriad at berson a ddynodwyd yn swyddog cymorth cymunedol neu'n wirfoddolwr cymorth cymunedol o dan adran 38 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (pwerau'r heddlu i staff sy'n sifiliaid a gwirfoddolwyr).